PAN JOHNNY DDAW 'NOL I DREF.

"When Johnny comes Marching Home."

PAN Johnny eto ddaw i dref,
Hwre! hwre!
Rhown roesaw calon iddo ef,
Hwre! hwre!
Ymlona'r gwŷr, a bloeddia'r plant,
A'r holl lodesi allan ânt:
A phawb fydd lon,
Pan Johnny ddaw 'nol i dref.

Hen glychau'r eglwys seinia'n hŷ.
Hwre! hwre!

OC3622943

I roesaw gartre'n bachgen cu,
Hwre! hwre!
Y llangciau a llangcesi'r llan
A rhôs a daena'r ffordd bob man;
A phawb fydd lon,
Pan Johnny ddaw 'nol i dref.

I'r jubil parod fo'm ar air.
Hwre! hwre!
I'r arwr rhoddwn dair gwaith tair,
Hwre! hwre!
'Nawr parod yw'r pleth-lawryf hael
I'w rhoddi ar ei ffyddlawn ael;
A phawb fydd lon,
Pan Johnny ddaw 'nol i dref.

Boed serch, brawdgarwch, ar y dydd,
Hwre! hwre!
Ein prif drysorau ledo'n rhydd,
Hwre! hwre!
Cyflawni boed pob un ryw ran
I loni côl yr aerwr can;
A phawb fydd lon,
Pan Johnny ddaw 'nol i dref.

Cyf. MEIRIADOG.